

## **C**Pam mae angen recordio'r cyfweiliad ar dâp sain neu ar fideo?

**A**Rydym eisiau diogelu buddiannau'r tyst a'r erlynydd a gwneud yn siwr nad oes awgrym bod yr erlynydd wedi "hyfforddi" y tyst yn ystod y cyfweiliad. Nid yw'r erlynydd yn cael dweud wrth y tyst beth i'w ddweud na beth i beidio â'i ddweud wrth roi tystiolaeth yn y llys, na cheisio gwneud iddynt newid eu tystiolaeth ar gyfer yr achos.

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni fodloni barnwr y treial bod y cyfweiliad wedi'i gynnal yn briodol ac nad yw'r erlynydd wedi dylanwadu ar dystiolaeth y tyst. Recordiad o'r cyfweiliad ar dâp sain neu fideo yw'r ffordd orau o wneud hynny, os bydd angen.

Ar ddiwedd y cyfweiliad, bydd yr erlynydd yn gofyn a ydych eisiau newid unrhyw beth a ddywedoch yn ystod y cyfweiliad ac a ydych eisiau gofyn unrhyw beth arall.

## **C**A fydd y diffynnydd yn gwybod beth ddywedais i yn ystod cyfweiliad?

**A**Yn gyffredinol bydd y recordiad o'r cyfweiliad ar dâp sain neu fideo ar gael i gyfreithiwr yr amddiffyniad oni bai fod deunydd sensitif ynddo. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe fydd yr amddiffyniad eisoes wedi derbyn copi o'ch datganiad tyst chi (a datganiadau tystion eraill) sy'n debygol o fynd dros yr un maes. Ni fydd neb wedi rhoi eich cyfeiriad iddynt oni bai fod hynny'n berthnasol i'r achos (e.e. mai yn eich cartref chi y digwyddodd y trosedd).

## **C**A fydd fy nghostau ar gyfer mynychu'r cyfweiliad cyn treial yn cael eu talu?

**A**Byddant. Bydd unrhyw gostau rhesymol yn cael eu had-dalu yn unol â'r rheolau ar gyfer talu i dystion sy'n mynychu'r llys.

### **Rhagor o gwestiynau:**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am gyfweiliadau gyda thystion cyn treial, cysylltwch â:



## **Cyfweiliadau gyda Thystion Cyn Treial**

Mae'r daflen yma'n egluro beth sy'n digwydd mewn cyfweiliad gyda thyst cyn treial

## **C**Beth yw cyfweiliad gyda thyst cyn treial?

**A** Rhaid i gyfreithyddion yr erlyniad benderfynu a ddylai achosion fynd i dreial ai peidio. Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddyn nhw fynd drwy'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr heddlu a gwneud yn siwr eu bod yn deall y dystiolaeth honno.

Weithiau mae'n ddefnyddiol i'r cyfreithydd gwrdd â chi er mwyn gallu gwneud yn siwr ei fod yn deall eich tystiolaeth a'i fod yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol oddi wrthyh. Er enghraifft, mae rhai darnau o dystiolaeth yn gymhleth iawn ac mae'n bosib y gallech helpu'r cyfreithydd ddeall tystiolaeth dechnegol neu fanwl, fel union amseriad digwyddiadau.

Bydd hyn yn helpu i benderfynu a fydd achos yn gallu mynd i dreial. Os bydd cyfreithydd yn penderfynu nad oes digon o wybodaeth neu nad yw'n ddigon clir, efallai y bydd yn penderfynu na fydd yr achos yn mynd i dreial. Os bydd hyn yn digwydd, fe gewch chi wybod cyn gynted â phosib.

## **C**Beth os nad wyf yn dymuno mynd am gyfweiliad?

**A** Mater gwirfoddol yw dod i'r cyfweiliad ai peidio. Os na fydd yna gyfweiliad, bydd cyfreithydd yr erlyniad yn penderfynu a fydd yn bwrw ymlaen â'r achos ai peidio trwy adolygu'r datganiadau a gymerwyd gan yr heddlu.

## **C**A gaf fi ddod â ffrind i fod yno gydol y cyfweiliad?

**A** Fe gewch chi ddod â ffrind neu rywun i'ch cefnogi, er na fyddant yn cael chwarae unrhyw ran yn y cyfweiliad na cheisio ateb cwestiynau ar eich rhan.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn sefydliad sydd wedi hyfforddi gwirfoddolwyr i roi cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion. Efallai eich bod eisoes wedi cysylltu â'ch cangen leol a gallwch ofyn iddyn nhw ddod gyda chi i'r cyfweiliad yma.

## **C**Pa fath o gwestiynau fydd yn cael eu gofyn?

**A** Yn gyntaf oll, fe fyddwch yn cael cyfle i ddarllen eich datganiad tyst (neu mewn rhai achosion i edrych ar fideo o'ch tystiolaeth), cadarnhau ei fod yn gywir a dweud a ydych yn dymuno ei newid neu ychwanegu ato.

Yna bydd cyfreithydd yr erlyniad yn gofyn ambell gwestiwn er mwyn cael egluro'r dystiolaeth yn eich datganiad tyst (neu fideo). Er enghraifft mae'n bosib y bydd yn holi am yr hyn a weloch chi, pa mor glir y gallech ei weld, neu ba mor bendant ydych chi mai'r sawl sydd wedi'i gyhuddo a gyflawnodd y trosedd.

Os bydd y broses yn gwneud i chi gofio tystiolaeth ychwanegol, efallai y bydd gofyn i chi roi datganiad arall i swyddog yr heddlu.

Bydd gofyn i chi gadarnhau hefyd eich bod yn gallu mynd i'r llys i roi tystiolaeth.

## **C**A fyddaf yn gwybod beth mae tystion eraill yn mynd i'w ddweud yn y llys?

**A** Na fyddwch. Am resymau cyfreithiol, ni fydd cyfreithydd yr erlyniad yn cael trafod tystiolaeth tystion eraill gyda chi.

CacA